# DOLWYDDELAN MEWN BLODAU

**7 Medi**
Garddio a gwaith tacluso beddi yn y fynwent newydd ei gwedd.
**10.30 - 12.30**
Bydd Liz a Connie ar gael i ddangos sut allwn ni helpu,
yn barod ar gyfer agoriad y Cwt Hers newydd
(fydd ar Ddydd Sadwrn yr 28ain).
Croeso i bawb newydd.

---

Cyfarfod arferol ar y 12fed o Fedi am 7:30 o'r gloch yn y Pafiliwn
(Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol mis Hydref i'w gyhoeddi)



Mae croeso mawr i aelodau newydd, dewch draw i weld yr hyn rydym ni'n ei wneud.

Dymuna DIB ddiolch i Stuart am ei holl waith caled yn y rhandir y tu ôl i'r Pafiliwn. Mae'n wych gweld y prosiect bu i'r Clwb Ieuenctid ddechrau arno yn dwyn ffrwyth.

# CLWB CREFFT DYDD LLUN

Bob bore Llun, 10 tan 12
£1 y person   Croeso i bawb

Dewch i fwynhau ychydig oriau i ffwrdd o'r byd go iawn.
Dewch i wneud crefftau gyda phobl o'r un meddylfryd gan rannu syniadau a phrofiadau.

Dyma ychydig o'r crefftau mae pobl wedi'u mwynhau hyd yma ...
Gweu – Gwehyddu – Paentio Gwydr - Crosio – Gleinio – Croesbwytho – Paentio ffigyrau gemau rhyfel – Les bobin – Gweu Ffrengig ayb.

## YN GALW AR BOB GWËWR A CHREFFTWR CROSIO

Mae Vanda, Tyn y Fron, yn ymgymryd â darn o waith i greu arddangosfa o babïau yn y Gerddi Coffa ar gyfer mis Tachwedd, ac yn dymuno i gymaint o bobl ag sydd bosibl o'r pentref gymryd rhan yn y gwaith o greu'r pabïau. Nid ydym wedi penderfynu ar union ffurf yr arddangosfa eto, felly os hoffech chi gymryd rhan mewn unrhyw ffordd, cysylltwch gyda vanda.woodward@gmail.com
neu shaunhewitt@me.com
Neu dewch i'r Pafiliwn ar fore Llun i gasglu patrwm a rhannu syniadau.
**Mae patrymau gweu neu grosio ar gael.**